

TRIBIWNLYS PRISIO CYMRU

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2013-2014

Tabl Cynnwys

Adrannau	Tudalen
Rhagair gan Lywydd y Tribiwnlys – Carol Cobert	2
Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr – Andrew Shipsides	3
1. Tribiwnlys Prasio Cymru a'i brif swyddogaethau	4
2. Strwythur Trefniadaeth Tribiwnlys Prasio Cymru	6
3. Y Cyngor Llywodraethu a'i bwyllgorau	8
4. Tribiwnlys Prasio Cymru – fframwaith rheoli Llywodraeth Cymru	11
5. Strwythur Staff Tribiwnlys Prasio Cymru	13
6. Aelodaeth Tribiwnlys Prasio Cymru	16
7. Hyfforddiant a Datblygiad	18
8. Llwyth gwaith	19
9. Cwynion	21
10. Ystad Tribiwnlys Prasio Cymru	22
11. Technoleg Gwybodaeth	24
12. Adnoddau Ariannol Tribiwnlys Prasio Cymru	26

Atodiadau

- A-1** Ystadegau Llwyth Gwaith 2012/2013
- A-2** Ystadegau Llwyth Gwaith 2012/2013 – Dadansoddiad o'r achosion Amrywiol
- B** Gwariant Tribiwnlys Prasio Cymru 2012/2013

Rhagair gan Lywydd Tribiwnlys Prisio Cymru

Croeso i Adroddiad Blynyddol Tribiwnlys Prisio Cymru ar gyfer 2013-14.

Bu'n flwyddyn anarferol a heriol, gyda llawer o sylw i'r broses etholiadol a gwblhawyd yn foddhaol efo Cadeiryddion, Cynrychiolwyr Rhanbarthol a Dirprwy Gynrychiolwyr Rhanbarthol wedi eu hethol yn ogystal â'm hailethol i yn Llywydd ac aelodau'r Cyngor Llywodraethu am gyfnod o ddwy flynedd arall.

Bu'n arbennig o bleserus croesawu aelodau staff newydd, sydd wedi ymgartrefu'n dda ac sy'n ategu'r staff a oedd yn bodoli eisoes yn dda iawn.

Rwy'n croesawu'r aelodau newydd a benodwyd i'r gwasanaeth a diolchaf i'n holl gadeiryddion ac aelodau am y modd effeithlon y cynhelir gwrandawiadau. Ymdriniwyd â busnes craidd y Tribiwnlys yn fanwl a thrwyadl ac unwaith eto mae nifer y cwynion ac atgyfeiriadau i uwch lysoedd wedi bod yn isel iawn.

Mae hyfforddiant yn hanfodol i'r aelodau i'w galluogi i fod yn hyfedr wrth ddarparu'r gwasanaeth a hoffwn longyfarch y Pwyllgor Hyfforddiant am nifer y sesiynau hyfforddiant a drefnwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a chynnwys y sesiynau hynny.

Rwy'n cael fy nghalonogi gan y cynnydd sy'n cael ei wneud i ddatblygu sgiliau Cymraeg ymhellach ac ymwybyddiaeth ynghylch ymateb yn Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r rhai sy'n ymwneud â'r Tribiwnlys drwy gyfrwng y Gymraeg.

I gloi, hoffwn ddiolch i'r Prif Weithredwr, y Clercod Rhanbarthol a holl staff ac aelodau'r Tribiwnlys sydd wedi cyfrannu ar y cyd tuag at y gwasanaeth effeithiol ac effeithlon a ddarparwyd gan Tribiwnlys Prisio Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Carol Cobert

Llywydd - Tribiwnlys Prisio Cymru

Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr

Ymunais â Thribiwnlys Prisio Cymru ym mis Mawrth 2013. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu fy mlwyddyn lawn gyntaf fel Prif Weithredwr.

Un o nodweddion y flwyddyn oedd swm sylweddol yr hyfforddiant i staff ac aelodau fel ei gilydd. Roedd dau brif ffactor y tu ôl i hyn. Un oedd ehangu awdurdodaeth y Tribiwnlys i gynnwys apeliadau gan bobl yn anfodlon â dull awdurdodau bilio lleol o ymdrin â'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor – a gyflwynwyd yn lle'r Cynllun Budd-dal y Dreth Gyngor o ganlyniad i ddiwygiadau lles sylweddol Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Y llall oedd penodi nifer sylweddol o staff newydd (yng nghydestun y Tribiwnlys) i lenwi bylchau a ddatblygodd dros sawl blwyddyn ac i fod yn barod ar gyfer (a) yr apeliadau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor newydd a (b) wrth edrych ymhellach i'r dyfodol, y cynnydd arferol mewn apeliadau sy'n digwydd ar ddiwedd cyfnod rhestr ardrethu a dechrau ei olynydd. Yn ychwanegol at yr elfennau arwyddocaol hyn, cyflwynwyd cynllun arfarnu aelodau y bu trafod maith ac aros hir amdano. Arweiniodd hyn at wario arian a threulio amser ar ragor o hyfforddiant – i'r rhai a fyddai'n gyfrifol am gynnal yr arfarnu ac i'r set gyntaf o'r rhai i'w harfarnu (ein cadeiryddion). Yn ogystal â'r hyfforddiant ychwanegol hwn parhawyd â'n cylch hyfforddiant blynyddol, yn cynnwys diwrnodau staff ac aelodau, diwrnodau ymarferwyr a chynhadledd cadeiryddion. Canfûm fod y Tribiwnlys Prisio yn cymryd datblygiad ei bobl o ddifri; ac rwy'n ddiolchgar iawn i Bwyllgor Hyfforddiant y Cyngor Llywodraethu, a'i ysgrifennydd Mrs Wendy Beynon, am y swm enfawr o waith a wnaed yn ystod y flwyddyn.

Yn yr un modd rwy'n ddiolchgar iawn i Bwyllgor y Gymraeg, a'i ysgrifennydd gweithgar Dr Ann Smith, am ei waith yn paratoi ar gyfer cyflwyno safonau'r Gymraeg gan Gomisiynydd y Gymraeg. Ar y cyd â'r Pwyllgor Hyfforddiant un o'r pethau a ddeilliodd o'r gwaith hwn oedd cynnal rhai ffug dribiwnlysoedd yn gyfangwbl drwy gyfrwng y Gymraeg, i helpu staff Asiantaeth y Tribiwnlys Prisio, sy'n cyflwyno gerbron ein tribiwnlysoedd, ddatblygu a gloywi eu sgiliau iaith. Mae gan y Tribiwnlys nod strategol o fod yn sefydliad sy'n gwella o ran y Gymraeg, yng nghyswllt derbyn, sicrhau hygyrchedd a bod yn ymatebol i ddefnyddio'r iaith.

Mae fy mlwyddyn lawn gyntaf yn arwain y sefydliad hwn wedi bod yn brysur, yn addysgiadol, yn hwyl ac yn heriol. Rwy'n ddiolchgar iawn am y modd mae'r Cyngor Llywodraethu, cadeiryddion, aelodau cyffredin a staff wedi fy nerbyn i. Mae gan Dribiwnlys Prisio Cymru hanes llwyddiannus drwy'r sefydliadau a'i ragflaenodd – gyda nifer yr atgyfeiriadau i'r uwch lysoedd a nifer y cwynion yn brin iawn. Mae'n ymfalchïo yn ei ethos o wasanaeth cyhoeddus; ac mae'n ceisio gwella drwy'r amser. Gobeithiaf fy mod wedi ei gynorthwyo ychydig ar hyd y daith eleni – ac rwy'n edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf.

Andrew Shippides
Prif Weithredwr – Tribiwnlys Prisio Cymru

1. Tribiwnlys Priso Cymru a'i brif swyddogaethau

- 1.1 Sefydlwyd Tribiwnlys Priso Cymru drwy reoliadau statudol ar 1 Ebrill 2010. Mae'n un corff ar gyfer Cymru gyfan, sy'n cyfuno ac yn disodli nifer o ragflaenwyr a oedd yn gyrrff lleol ledled y wlad yn dyddio yn ôl, mewn amrywiol ffurfiau, i greu'r llysoedd priso lleol dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1948. Mae ganddo hanes hir a llwyddiannus drwy hyn, ar ôl ymdrin â channoedd ar filoedd o apeliadau dros y degawdau, gyda'r atgyfeiriadau i uwch lysoedd yn brin iawn. Rhagnodir swyddogaethau barnwrol a gweinyddol presennol Tribiwnlys Priso Cymru gan:
- Rheoliadau Tribiwnlys Priso Cymru 2010 (fel y'i diwygiwyd yn 2013),
 - Rheoliadau 19 i 37 yn Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd),
 - Rheoliadau 16 i 32 yn Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Rhestri ac Apelau) 1993 (fel y'i diwygiwyd),
 - Atodlen 4A Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac
 - Adrannau 45 a 46 Deddf Draenio Tir 1991 (fel y'i diwygiwyd).
- 1.2 Mae gan Tribiwnlys Priso Cymru swyddogaeth farnwrol statudol i wrando ar a phenderfynu ar apeliadau yn erbyn priso eiddo ar gyfer ardrethi annomestig, y dreth gyngor ac ardrethi draenio. Mathau eraill o apeliadau sy'n dod o dan awdurdodaeth y Tribiwnlys Priso yw'r rhai ynghylch atebolrwydd y dreth gyngor, hysbysiadau cwblhau a mathau penodol o gosbau a gyflwynir gan awdurdodau bilio (cyngorau awdurdodau unedol Cymru) neu Asiantaeth y Swyddfa Briso.
- 1.3 Mae swyddogaethau gweinyddol Tribiwnlys Priso Cymru, sy'n cefnogi ei rôl farnwrol, yn cynnwys:
- darparu swyddfeydd;
 - penodi staff yn cynnwys y Prif Weithredwr / Clerc y Tribiwnlys;
 - darparu technoleg gwybodaeth;
 - darparu offer;
 - darparu hyfforddiant i staff ac aelodau;
 - cydlynu darpariaeth cyngor cyffredinol ar y gweithdrefnau yng nghyswllt trafodion y Tribiwnlys Priso; a
 - rheoli materion cydymffurfio statudol.
- 1.4 Mae'r Tribiwnlys yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru; ac felly darperir cyllid gan Lywodraeth Cymru ar sail cyllideb flynyddol, dan gytundeb fframwaith ffurfiol. Adolygwyd a diwygiwyd trefniadau'r cytundeb yn ystod y flwyddyn, yn unol â pholisi adolygu rheolaidd a ysgogwyd gan benodi Prif Weithredwr newydd ym mis Mawrth 2013. (Cyflwynir rhagor o fanylion yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.)
- 1.5 Ac eithrio'r trefniadau rheoli cydweithredol *hyd braich* y cytunwyd arnynt â Llywodraeth Cymru, mae'r Tribiwnlys Priso yn gorff cwbl annibynnol. Yn bwysig iawn, mae'n hollol annibynnol ar Asiantaeth y Swyddfa Briso sy'n

pennu gwerthoedd ardrethol eiddo annomestig a bandiau treth gyngor cartrefi a'r awdurdodau bilio sy'n anfon y biliau ardrethi a'r dreth gyngor.

2. Strwythur Trefniadaeth Tribiwnlys Prasio Cymru

- 2.1 Mae Tribiwnlys Prasio Cymru yn cynnwys aelodau sy'n gwrandao ar ac yn penderfynu ar apeliadau, a staff sy'n darparu gwasanaethau cymorth i'r aelodaeth. Mae'r Rheoliadau yn rhagnodi y dylai'r Tribiwnlys gynnwys isafswm o 186 ac uchafswm o 236 o aelodau. Mae 21 o staff (y cyfan yn staff amser llawn).
- 2.2 Mae'r aelodau yn wirfoddolwyr lleol a benodir i'r Tribiwnlys ar y cyd gan y Llywydd a'r awdurdodau bilio yng Nghymru, am gyfnodau o hyd at chwe mlynedd. Caniateir adnewyddu cyfnod gwasanaethu, ac felly gall aelodau barhau â'r Tribiwnlys am gyfnodau maith, di-dôr. Ni thelir aelodau, ond gallant hawlio costau teithio a chynhaliaeth.
- 2.3 Mae'r aelodaeth a'r staff wedi eu grwpio yn dimau rhanbarthol (gogledd, de, dwyrain a gorllewin). Mae'r trefniant daearyddol hwn wedi ei bennu gan reoliadau o ran yr aelodaeth, yn bennaf er mwyn darparu mecanwaith ar gyfer cael pobl yn rhan o Gyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys a darparu gwasanaeth lleol i ddefnyddwyr y tribiwnlys. Caiff aelodau wasanaethu yn unrhyw le yn y wlad, ond at ddibenion ymarferol ac effeithlonrwydd economaidd maent yn tueddu gwasanaethu yn eu rhanbarth. Mae gan bob rhanbarth dîm o bump aelod staff, yn cynnwys cymysgedd o swyddogion tribiwnlys sy'n ymgymryd â mwyafrif y gweithgareddau rheoli achosion ac yn darparu cyngor cyfreithiol a gweithdrefnol i aelodau, a swyddogion cymorth gweinyddol sy'n darparu gwasanaeth cymorth gweinyddol. Arweinir pob tîm gan uwch swyddog rheoli achosion/cyngor, a adwaenir fel y Clerc Rhanbarthol.
- 2.4 Mae deg cadeirydd ymhob rhanbarth. Fe'u hetholir gan yr aelodaeth lawn ac maent yn gwasanaethu yn y swydd hon nes bod cyfnod eu haelodaeth gyffredin yn dod i ben. Os ydynt yn cael eu hailbenodi fel aelod cyffredin gallant sefyll i'w hailethol fel cadeirydd.
- 2.5 Etholir Llywydd y Tribiwnlys gan yr aelodaeth lawn am gyfnod o ddwy flynedd yn y swydd. Fodd bynnag, gall hyn gael ei gwtogi os yw aelodaeth gyffredin y sawl a etholwyd yn dod i ben, onibai yr adnewyddir yr aelodaeth gyffredin. Digwyddodd hyn ar ddiwedd blwyddyn yr adroddiad hwn gan ysgogi proses etholiad ynghynt na'r arfer. Y Llywydd sy'n arwain y Cyngor Llywodraethu.
- 2.6 Y Cyngor Llywodraethu yw'r corff sy'n arwain y Tribiwnlys ac yn llunio ei bolisiâu. Mae'r Cyngor yn ofynnol yn statudol, ac mae'n cynnwys y Llywydd, y pedwar Cynrychiolydd Rhanbarthol (a etholir o blith cadeiryddion pob rhanbarth), ac unigolyn annibynnol a benodir gan Lywodraeth Cymru. Cyfnod swydd Cynrychiolwyr Rhanbarthol yw dwy flynedd, onibai bod hyn yn cael ei gwtogi gan eu haelodaeth gyffredin yn dod i ben (onibai ei fod yn cael ei adnewyddu ar unwaith). Pennir cyfnod swydd enwebai Llywodraeth Cymru gan Lywodraeth Cymru dan ei rheolau ei hun. Ni thelir aelodau'r Cyngor Llywodraethu, ond gallant hawlio costau teithio a chynhaliaeth.
- 2.7 Penodir Prif Weithredwr y Tribiwnlys gan y Cyngor Llywodraethu, ond mae'r penodiad yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru. Mae'r

Prif Weithredwr hefyd yn Glerc y Tribiwnlys. Y Prif Weithredwr sy'n arwain tîm rheoli'r staff (sy'n cynnwys y Prif Weithredwr a'r pedwar Clerc Rhanbarthol).

- 2.8 Mae'r Tribiwnlys yn gweithredu o dair swyddfa. Lleolir rhanbarth y gogledd yn adeiladau Llywodraeth Cymru yng Nghyffordd Llandudno. Lleolir rhanbarth y gorllewin yn adeiladau'r Llywodraeth ym Mhenllergaer (ar gyrion Abertawe). A lleolir rhanbarthau'r dwyrain a'r de mewn swyddfeydd yng Nghasnewydd sy'n cael eu rhentu gan y sector preifat. Cynhelir rhai gwrandawiadau tribiwnlys ym Mhenllergaer a Chasnewydd; ond ni chynhelir unrhyw wrandawiadau yng Nghyffordd Llandudno oherwydd ni ellir gwarantu mynediad i ystafelloedd addas ar gyfer gwrandawiadau. Cynhelir y rhan fwyaf o wrandawiadau tribiwnlys mewn lleoliadau wedi eu llogi ymhob cwr o'r wlad, gyda'r nod o ddarparu gwasanaeth sy'n cymryd ffactorau daeryddol i ystyriaeth o ran defnyddwyr y Tribiwnlys.

3 Y Cyngor Llywodraethu a'i bwyllgorau

3.1 Ar ddechrau cyfnod yr adroddiad hwn aelodau'r Cyngor Llywodraethu oedd:

Miss CA Cobert YH, Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru
Mr CN Todd, Cynrychiolydd Rhanbarthol Dwyrain Cymru
Mr HM McEvoy MBE, Cynrychiolydd Rhanbarthol Gogledd Cymru
Mr AHN Clatworthy, Cynrychiolydd Rhanbarthol De Cymru
Mr JR Evans, Cynrychiolydd Rhanbarthol Gorllewin Cymru
Mr RG Parry OBE, aelod annibynnol a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

3.2 Yn ystod y flwyddyn daeth cyfnod penodiad Mr HM McEvoy fel aelod cyffredin i ben (ar 31 Rhagfyr 2013). Yn dilyn ei ailbenodi fel aelod cyffredin yn weithredol o 1 Ionawr 2014 a'r etholiadau dilynol ar gyfer swyddi cadeiryddion a chynrychiolwyr rhanbarthol, daeth Mr McEvoy yn ei ôl fel aelod o'r Cyngor Llywodraethu ar 7 Mawrth 2014. Felly ar ddiwedd cyfnod yr adroddiad (ar 31 Mawrth 2014) roedd aelodaeth y Cyngor yr un fath.

3.3 Fodd bynnag, ar y diwrnod canlynol (1 Ebrill 2014) – sy'n dechnegol y tu allan i gwmpas yr adroddiad hwn – daeth aelodaeth gyffredin aelodau isod y Cyngor Llywodraethu i ben:

Miss CA Cobert
Mr CN Todd
Mr AHN Clatworthy
Mr JR Evans

Dychwelwyd pob un o'r aelodau hyn fel aelodau'r Cyngor Llywodraethu yn dilyn cyfres o wahanol etholiadau – sydd wedi arwain at ddyddiadau adnewyddu gwahanol yn y dyfodol. Bwriedir cynnwys manylion llawn yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

3.4 Y Dirprwy Gynrychiolwyr Rhanbarthol, sydd hefyd yn cael eu penodi drwy etholiad ac sy'n dirprwyo pan fo'n ofynnol yng nghyfarfodydd y Cyngor Llywodraethu, ar ddechrau cyfnod yr adroddiad hwn oedd:

Mr KC Mock (Dwyrain)
Mr JB Jones (Gogledd)
Mrs BC Martin (De)
Mr NKL Thomas (Gorllewin)

3.5 Cafwyd un newid yn ystod y flwyddyn pan ymddiswyddodd Mr JB Jones fel cadeirydd y Tribiwnlys ac fel dirprwy gynrychiolydd rhanbarthol ar adeg diwedd cyfnod ei benodiad fel aelod cyffredin ar 31 Rhagfyr 2013. Er adnewyddu ei aelodaeth gyffredin dewisodd beidio â sefyll fel cadeirydd na chynrychiolydd rhanbarthol eto. O ganlyniad i hynny, yn dilyn y broses etholiad ofynnol, etholwyd Mr DR Prytherch yn Ddirprwy Gynrychiolydd Rhanbarthol rhanbarth y Gogledd.

- 3.6 Dangosir presenoldeb ym mhedwar cyfarfod y Cyngor Llywodraethu yn ystod y flwyddyn isod:

5 Mehefin 2013, 25 Medi 2013, 4 Rhagfyr 2013, 19 Mawrth 2014

Aelod	Rôl	Presennol	Nodiadau
CA Cobert	Llywydd	4	
CN Todd	Cynrychiolydd Rhanbarthol	2	Cyflwynwyd ymddiheuriad – Mehefin Dirprwy yn bresennol
HM McEvoy	Cynrychiolydd Rhanbarthol	3	Cyflwynwyd ymddiheuriad – Mawrth Dirprwy yn bresennol
AHN Clatworthy	Cynrychiolydd Rhanbarthol	4	
JR Evans	Cynrychiolydd Rhanbarthol	3	
R G Parry	Aelod Annibynnol	4	
KC Mock	Dirprwy Gynrychiolydd Rhanbarthol	1	Dirprwyo – Mehefin
DR Prytherch	Dirprwy Gynrychiolydd Rhanbarthol	1	Dirprwyo – Mawrth

- 3.7 Cefnogir holl gyfarfodydd y Cyngor Llywodraethu gan bresenoldeb y tîm rheoli'r staff (h.y. y Prif Weithredwr a'r Clercod Rhanbarthol). Cynhelir cyfarfodydd yn chwarterol; ac mae lleoliadau'r cyfarfodydd yn cylchdroi drwy'r rhanbarthau: Gorllewin (Haf); Gogledd (Hydref); Dwyrain (Gaeaf) a De (Gwanwyn).
- 3.8 Yn ystod ei gyfarfod yn Hydref 2013 penderfynodd y Cyngor ehangu a gwella rôl dirprwy gynrychiolwyr rhanbarthol, o ddirprwyo yn ystod absenoldeb yn unig i hefyd (a) dderbyn holl bapurau'r Cyngor Llywodraethu yn awtomatig ar adeg eu dosbarthu a (b) cael eu gwahodd i fod yn bresennol fel aelod nad yw'n pleidleisio pan gynhelir y cyfarfod yn rhanbarth y dirprwy.
- 3.9 Mae'r Cyngor Llywodraethu wedi creu pum pwyllgor cynghori sy'n cyflwyno adroddiadau iddo, sef:

Cydymffurfio
Cyllid ac Archwilio
Adnoddau Dynol Staff a Phersonél

Hyfforddiant Staff ac Aelodau
Y Gymraeg

Mae'r pwyllgorau hyn wedi cyfarfod nifer amrywiol o weithiau dros gyfngau amrywiol yn ystod y flwyddyn, yn ddibynnol ar y llwyth gwaith ym maes cyfrifoldeb pob pwyllgor ac argaeledd staff i wasanaethu'r cyfarfodydd. Ni luniwyd amserlen ffurfiol ar ddechrau'r flwyddyn ac felly mae patrwm y cyfarfodydd wedi bod yn ad hoc a heb eu rheoli'n ganolog – gyda'r ysgrifenyddion (y Clercod Rhanbarthol) a'r cadeiryddion (aelodau o'r Cyngor Llywodraethu) yn trefnu eu cyfarfodydd eu hunain heb wybod am neu gyfeirio at y patrwm cyfarfodydd ehangach. Aethpwyd i'r afael â'r mater hwn yn awr a chyflwynwyd cylch pwyllgorau blynyddol ar gyfer 2014/15 gyda dyddiadau wedi eu penodi ar gyfer cyfarfodydd ac wedi eu lledaenu drwy'r flwyddyn. Gellir canslo'r cyfarfod os nad oes angen un. Mae'r amserlen ymlaen llaw yn darparu fframwaith ar gyfer gweithgareddau llywodraethu'r Tribiwnlys ac mae'n caniatáu i Glercod Rhanbarthol gynllunio eu hamserlenni cyfarfodydd tribiwnlys yng nghyd-destun hyn.

- 3.10 Y pwyllgorau prysuraf yn ystod y flwyddyn oedd y Pwyllgor Hyfforddiant a Phwyllgor y Gymraeg. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffeithiau bod (1) angen mwy o hyfforddiant na'r arferol yn ystod y flwyddyn oherwydd cyflwyno apeliadau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a phenodi nifer sylweddol o staff newydd a (2) camau rhagarweiniol datblygu Safonau'r Gymraeg gan Gomisiynydd y Gymraeg wedi galw am dalw sylw manwl i'r manylion. Bu'r pwyllgorau Adnoddau Dynol a Chyllid yn llai prysur ac ni wnaeth y Pwyllgor Cydymffurfio gyfarfod o gwbl. Un o'r rhesymau na wnaeth y Pwyllgor Cydymffurfio gyfarfod oedd oherwydd ei fod yn arfer ymdrin â materion y Gymraeg a bellach mae'r gwaith hwn wedi ei wahanu ac mae'n cael ei drin gan bwyllgor iaith penodol, ar wahân. Cyflawniad pwysig a nodedig eleni oedd bod y Pwyllgor Adnoddau Dynol wedi cytuno ar gynnwys terfynol system arfarnu aelodau. Bu hyn yn cael ei drafod ers nifer o flynyddoedd. Cafodd y cynllun arfaethedig ei gymeradwyo gan y Cyngor Llywodraethu ac mae'n cael ei weithredu ar hyn o bryd (gweler adran yr Aelodau yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn).
- 3.11 O ystyried y patrwm cyfarfodydd hyn yn ystod blwyddyn yr adroddiad a datblygu cylch cyfarfodydd pwyllgor blynyddol ar gyfer y flwyddyn ddilynol yn sgîl hynny, penderfynodd y Cyngor Llywodraethu edrych yn fanylach ar ei strwythur pwyllgorau i'r dyfodol a rhoddwyd tasg i'r Prif Weithredwr adolygu cwmpas y pwyllgorau ac ystyried a oedd angen unrhyw newidiadau. Os oes angen newid bydd yn cael ei weithredu yn ystod 2014/15, gyda'r nod o ddechrau ag amserlen glir a strwythur clir yn 2015/16.

4 Tribiwnlys Prasio Cymru – fframwaith rheoli Llywodraeth Cymru

- 4.1 Ar ddechrau cyfnod yr adroddiad cafodd y fframwaith rheoli a gytunwyd rhwng Tribiwnlys Prasio Cymru a Llywodraeth Cymru ei gario ymlaen mewn dwy ddogfen y cytunwyd arnynt ym mis Medi 2010, sef Datganiad Rheoli a Memorandwm Ariannol. Roedd y rhain yn nodi'r berthynas rhwng Tribiwnlys Prasio Cymru a Llywodraeth Cymru ac yn diffinio'r telerau ac amodau sy'n berthnasol i Weinidogion Cymru wrth ddarparu cyllid i'r Tribiwnlys. Maent yn nodi'r terfynau dirprwyo gwario a rheolau, rheoliadau a chanllawiau eraill sy'n berthnasol i weithredu swyddogaethau Tribiwnlys Prasio Cymru, a rhoir manylion sut y cedwir Tribiwnlys Prasio Cymru yn atebol. Mae rhoi arian i Dribiwnlys Prasio Cymru yn ddibynnol ar i'r sefydliad gyflawni ei ymrwymadau yn foddhaol, fel y nodir yn y dogfennau uchod, ac unrhyw amodau a gofynion eraill a gyflwynir gan Weinidogion Cymru o dro i dro.
- 4.2 Ym mis Ionawr y flwyddyn hon cynigiodd Llywodraeth Cymru adolygu'r dogfennau cyfredol yn un ddogfen fframwaith. Byddai llawer o'r cynnwys yn parhau yr un fath; ond byddai terfynau dirprwyo ariannol yn cael eu diweddarau a'u ehangu. Yn dilyn trafodaethau manwl â'r Prif Weithredwr cytunwyd i gymedroli nifer o ddirprwyaethau gorgyfngol, gan ryddhau swyddogion Llywodraeth Cymru rhag gorfod gwneud taliadau penodol ar ran Tribiwnlys Prasio Cymru (yn enwedig o ran materion swyddfeydd) a gwella'r sefyllfa o ran cadw golwg amserol ar drafodion ariannol i'r Tribiwnlys ei hun. Roedd cynnydd yn y cronfeydd ar gael i'r Tribiwnlys yn ei gyfrif banc (ei lefel imprest) yn gysylltiedig â'r cytundeb hwn. Byddai'r cynnydd hwn yn lleddfu'r pwysau ariannol a welwyd ar adegau gweithgaredd brig, yn enwedig wrth gynnal digwyddiadau hyfforddiant mawr i aelodau'r tribiwnlys, pan fo'r galw ar y cronfeydd yn tyfu'n sylweddol. Er na chafodd hyn ei lofnodi'n ffurfiol tan ar ôl cyfnod yr adroddiad hwn, oherwydd absenoldeb prif swyddog negodi Llywodraeth Cymru am resymau salwch, mae'r newidiadau yn y ddogfen fframwaith newydd yn arwyddocaol ac o fudd i'r ddwy ochr.
- 4.3 Mae'r trafodaethau llwyddiannus am y fframwaith rheoli, a'r newidiadau i'r trefniadau monitro a chyfnewid gwybodaeth ariannol a ddeilliodd o'r trafodaethau hyn, yn dyst i'r berthynas waith dda rhwng Tribiwnlys Prasio Cymru a'i dîm nawdd Llywodraeth Cymru. Mae'r Prif Weithredwr ac aelodau'r tîm yn cyfarfod wyneb yn wyneb unwaith y mis, ac yn cysylltu â'i gilydd yn rheolaidd drwy e-bost ac ar y ffôn. Cyflawnir swyddogaeth cyflogres y Tribiwnlys gan Lywodraeth Cymru felly mae angen amlwg am gydgyssylltu da yn fisol o leiaf. Mae'r trefniadau monitro ariannol wedi gwella'n sylweddol ar y ddwy ochr yn ystod y flwyddyn hon, gyda'r wybodaeth yn cael ei chyfnweid yn llawer cyflymach ar ddiwedd y flwyddyn nag yr oedd ar ddechrau'r flwyddyn. Bwriedir i'r trefniadau newydd hyn barhau yn y dyfodol.
- 4.4 Bu awgrym yn ystod y flwyddyn y dylai trefniadau tîm nawdd y Tribiwnlys symud o gael eu cynnal yn yr is-adran Cyllid a Pherfformiad Llywodraeth Leol i Uned Cyfiawnder Gweinyddol Llywodraeth Cymru. Mae hwn yn fater i Lywodraeth Cymru benderfynu arno. Fodd bynnag mae'r Tribiwnlys ei hun wedi ei blesio eleni â'r modd y mae'r berthynas rhwng y Tribiwnlys â'r tîm nawdd cyfredol wedi datblygu ac aeddfedu yn dilyn adnewyddu'r personél yn

y tîm yn gyfangwbl ddwy flynedd yn ôl. Mae'r Tribiwnlys yn gwerthfawrogi'r modd yr ymdriniwyd â'r adolygiad cytundeb rheoli mewn ffordd gadarnhaol ac ymarferol; ac mae'n gwerthfawrogi'r mewnwleddiad polisi mae'r trefniant presennol yn ei ddarparu. Gan fod perthnasoedd gwaith da yn bodoli eisoes rhwng unigolion ac ar lefel weinyddol mae'r ymgynghori ar unrhyw newidiadau arfaethedig i reoliadau (neu faterion polisi eraill) a fydd neu a allai effeithio ar waith y Tribiwnlys yn hawdd a chyflym. Mae cyfarfod misol y Prif Weithredwr â'r tîm yn cynorthwyo hyn yn fawr iawn. O safbwynt y Tribiwnlys mae un cyswllt â Llywodraeth Cymru yn gweithio'n dda ar lefel gweinyddol a lefel polisi.

5. Strwythur Staff Tribiwnlys Prasio Cymru

- 5.1 Mae gan bob un o'r pedair rhanbarth Clerc Rhanbarthol, sy'n gyfrifol am gynllunio a rheoli'r gwaith apêl a gyfyd yn eu hardal ddaearyddol. Mae'r Clercod yn goruchwyllo eu timau bychain o staff penodol, sy'n cynnwys Swyddogion Tribiwnlys Proffesiynol (staff wedi eu hyfforddi i gynghori aelodau ar y gyfraith a gweithdrefnau) a Staff Cymorth Gweinyddol. Mae hyn yn waddol o'r rhanbarthau yn dribiwnlysoedd annibynnol ar wahân yn y gorffennol. Mae'r trefniant yn gweithio'n dda ac mae aelodau staff unigol ar bob lefel wedi cronni lefel uchel o wybodaeth leol arbenigol. Roedd rhai Swyddogion Tribiwnlys Proffesiynol wedi eu dynodi fel swyddogion peripatetig, cyn dyfodiad Tribiwnlys Prasio Cymru (h.y. un tribiwnlys cenedlaethol) a oedd yn caniatáu i'r tîm rheoli alw arnynt i wasanaethu mewn ardaloedd y tu hwnt i'w hardal arferol. Gallai hyn ddigwydd oherwydd absenoldeb salwch tymor hir staff neu gynnydd yn y llwyth gwaith mewn ardaloedd penodol. Nawr bod y sefydliad yn un tribiwnlys gellid gofyn i bob un o'r Swyddogion Tribiwnlys Proffesiynol fynd i dribiwnlysoedd yn unrhyw leoliad yng Nghymru.
- 5.2 Uwchben y Clercod Rhanbarthol ceir swyddogaeth y Prif Weithredwr sydd hefyd yn cynnwys, dan reoliadau llywodraethu Tribiwnlys Prasio Cymru, safle statudol Clerc y Tribiwnlys. Mae'r Prif Weithredwr cyfredol wedi ei leoli gyda thîm rhanbarth y gogledd yn Adeiladau'r Llywodraeth yng Nghyffordd Llandudno. Serch hynny, nid yw lleoli'r swydd yn y Gogledd yn ofyniad gweithrediadol. Gallai Prif Weithredwr yn y dyfodol weithio o unrhyw un o swyddfeydd y Tribiwnlys, yn dibynnu ar eu pellter o'u cartref. Lle bynnag y lleolir y Prif Weithredwr, disgwylir iddo/iddi ymweld â'r swyddfeydd eraill yn rhesymol aml – o leiaf unwaith y mis, os yn bosibl. Mae'r Prif Weithredwr presennol ar gytundeb cyfnod penodol am ddwy flynedd (a ddechreuodd ym mis Mawrth 2013). Mae'n bolisi arferol i'r Tribiwnlys gynnig penodiadau am gyfnod penodol i ddechrau i gyflogeion sy'n dod i mewn i'r gwasanaeth, gyda'r bwriad o ymestyn y cyfnod neu wneud y swydd yn barhaol ar sail perfformiad boddhaol. [Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn (Medi 2014) mae'r Cyngor Llywodraethu wedi cynnig y swydd hon yn barhaol i'r deilydd presennol, yn weithredol o fis Mawrth 2015, gyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru. Mae'r cynnig hwn yn amodol ar gwblhau gweddill y cyfnod penodol yn llwyddiannus.]
- 5.3 Cefnogir y Prif Weithredwr gan Swyddog Cyllid/Cymhorthydd Personol, sy'n meddu ar gyfrifoldebau fel Swyddog Cymorth Gweinyddol yn Rhanbarth Dwyrain Cymru hefyd. Felly lleolir y swyddog yma yn swyddfa Casnewydd. Mae hwn yn drefniant gwaddol o ganlyniad i benodi'r Swyddog Cyllid/Cymhorthydd Personol presennol gan y Prif Weithredwr blaenorol, a leolwyd yng Nghasnewydd. Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan y swyddog yma i'r Prif Weithredwr yn cael eu hwyluso gan ddulliau telegyfathrebu modern ac adnoddau rhwydwaith y Tribiwnlys.
- 5.4 Mae staff y Tribiwnlys yn tueddu bod yn sefydlog iawn, gyda phobl yn ymuno â'r gwasanaeth ac yn aros am rai blynyddoedd (llawer o flynyddoedd yn aml). Mae eleni, fodd bynnag, wedi bod yn flwyddyn eithriadol o ran newidiadau

staffio. Gadawodd dau aelod o staff yn ystod y flwyddyn a phenodwyd pum swyddog newydd. Penodwyd y tri aelod staff ychwanegol i gydbwysu'r bylchau yn y strwythur *pum swyddog ymhob ardal* a ddatblygodd dros gyfnod o amser, gyda'r nod o'u hyfforddi i ymdrin ag apeliadau'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor newydd (a ddaeth yn weithredol y flwyddyn hon) yn ogystal a bod wedi eu paratoi'n llawn, drwy brofiad tribiwnlys, i ymdrin â'r cynnydd yn y llwyth gwaith yn dilyn yr ailbriso ardrethi annomestig nesaf. Penodwyd pedwar o'r staff newydd ym mis Mehefin ar gytundeb cyfnod penodol – trefniant tebyg i'r hyn a ddisgrifiwyd uchod yng nghyswllt y Prif Weithredwr. [Eto, yn debyg i swydd y Prif Weithredwr, mae'r Cyngor Llywodraethu bellach wedi cynnig cytundebau parhaol i'r staff hyn yn weithredol o 1 Ebrill 2015, gyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru. Mae'r cynigion hyn yn amodol ar barhad perfformiad boddhaol, ac fe'u derbyniwyd gan ddeilyddion y swyddi.]

- 5.5 Cafodd yr holl staff newydd eu gwneud yn aelodau o Gronfa Dyfed y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, sef dewis gronfa'r Tribiwnlys ar hyn o bryd. Mae gan y Tribiwnlys staff ag aelodaeth mewn pedair cronfa wahanol, am resymau hanesyddol. Gallai'r Tribiwnlys ystyried cyfuno'r aelodaeth mewn un gronfa yn y dyfodol, os yw hyn yn hyfyw yn economaidd. Fodd bynnag, gallai'r costau trosglwyddo fod yn afresymol o ddrud.
- 5.6 Ar ddiwedd cyfnod yr adroddiad roedd Tribiwnlys Prisio Cymru yn cyflogi cyfanswm o 21 o bobl (pawb yn amser llawn). Roeddynt yn cyflawni'r swyddogaethau isod:
- Prif Weithredwr
 - 4 Clerc Rhanbarthol
 - 10 Swyddog Tribiwnlys Proffesiynol
 - 1 Swyddog Cyllid/Cymhorthydd Personol
 - 5 Swyddog Cymorth Gweinyddol
- 5.7 Yn ychwanegol at y staff cyflogedig uchod penododd y Tribiwnlys gynghorydd ymgynghorol Adnoddau Dynol llawrydd i ddarparu cyfleuster llinell gymorth Adnoddau Dynol drwy gydol y flwyddyn a phedwar ymweliad undydd i swyddfeydd neu sesiynau hyfforddiant. Arweiniodd yr ymgynghorydd hwn yr hyfforddiant cyflwyno cynllun arfarnu'r aelodau a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn (gweler adran Aelodau yr adroddiad).
- 5.8 Yn ogystal â system arfarnu ffurfiol i'r aelodau gwelodd y flwyddyn hon ailgyflwyno adolygiadau personol blynyddol i'r staff. Nawr bydd adolygiadau blwyddyn lawn yn digwydd bob Ionawr, gydag adolygiadau canol blwyddyn yn digwydd fel bo'n gyfleus ym misoedd yr haf (Mehefin – Awst). Mae'r Clercod Rhanbarthol yn cynnal adolygiad aelodau unigol eu tîm. Mae'r Prif Weithredwr yn cynnal adolygiadau'r Clercod. Ac mae'r Llywydd yn cynnal adolygiad y Prif Weithredwr.
- 5.9 Mae Tribiwnlys Prisio Cymru yn parhau i fonitro presenoldeb staff ac yn cyflwyno adroddiadau i Lywodraeth Cymru yn fisol, fel rhan o'i gylch gwaith i fonitro absenoldeb staff mewn cyrff gwasanaethau cyhoeddus. Roedd y lefelau absenoldeb salwch yn parhau i fod yn is na chyfartaledd y sector

cyhoeddus; ond oherwydd nifer fechan y staff byddai'n hawdd i absenoldeb tymor hir gwirioneddol un unigolyn effeithio ar hyn. Yn unol â hynny mae potensial mawr i'r mesur hwn fod yn gyfnewidiol; a dylid cofio hyn bob amser wrth adolygu ffigurau'r gorffennol a'r dyfodol.

- 5.10 Mae traean y gweithlu (7 o 21) yn ddwyieithog o safbwynt medru'r Gymraeg a'r Saesneg, ac mae pob tîm rhanbarthol yn cynnwys o leiaf un aelod staff sy'n rhugl yn y Gymraeg. Mae gan eraill lefelau hyfedredd amrywiol. Mae'r Prif Weithredwr yn ddysgwr ffurfiol, ac yn mynychu dosbarthiadau rheolaidd yng Nghyffordd Llandudno. Mae'r Tribiwnlys yn hybu datblygu sgiliau Cymraeg ac yn barod i gyllido cyrsiau hyfforddiant priodol i'r rhai sy'n dymuno gwella eu hyfedredd. Mae ymwybyddiaeth gref o'r angen i ymateb i bobl sy'n ymwneud â'r Tribiwnlys yn Gymraeg drwy gyfrwng yr iaith, a rhoir sylw manwl a gofalus i ddarparu ein gwasanaethau i'r defnyddwyr hyn drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ysgrifenedig ac ar lafar.

6. Aelodaeth Tribiwnlys Prasio Cymru

6.1 Penderfynir ar nifer aelodau'r Tribiwnlys gan reoliadau statudol ac fe'i nodir o ran nifer yr aelodau y gellir eu penodi yng nghyswllt pob ardal awdurdod lleol drwy Gymru. Gwneir y penodiadau ymhob ardal gan baneli penodi ar y cyd sy'n cynnwys cynrychiolydd neu gynrychiolwyr y cyngor yn yr ardal dan sylw a Llywydd Tribiwnlys Prasio Cymru neu, os awdurdodir hynny gan y Llywydd, Gynrychiolydd Rhanbarthol perthnasol Cyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys Prasio. Gall cyfnod y penodiadau fod am unrhyw gyfnod hyd at uchafswm o chwe blynedd. Yn ymarferol mabwysiadir chwe blynedd yn gyffredin a dyna yw'r norm. Yn gyffredinol mae paneli penodi yn cyfarfod unwaith bob dwy flynedd ac yn ymdrin â phenodi traean y nifer a ddynodwyd ar gyfer y rhanbarth dan sylw. Gellir cynnal paneli penodi ad hoc ar unrhyw adeg i ymdrin ag unrhyw amrywio sylweddol mewn aelodaeth ynghanol y cyfnod, ond mae hyn yn annarferol. Mae'r amrywio mewn aelodaeth o ganlyniad i farwolaethau neu ymddiswyddiadau gan amlaf. Mae'r ddau beth yn tueddu bod yn ddigwyddiadau achlysurol, ac felly mae'r lefelau aelodaeth yn tueddu bod yn sefydlog dros gyfnod amser cymharol hir. Ar ddiwedd cyfnod penodiad gellir ailbenodi'r aelod. Nid oes uchafswm oedran aelodaeth. Mae nifer o'r aelodau cyfredol wedi eu hailbenodi sawl gwaith yn eu gyrfa â'r Tribiwnlys a'r cyrff a'i ragflaenodd, ac felly maent yn meddu ar lawer o brofiad wrth ymdrin ag apeliadau trethu lleol.

6.2 Niferoedd y Rhanbarthau drwy gydol blwyddyn yr adroddiad oedd:

Rhanbarth	Isafswm	Uchafswm
Dwyrain Cymru	48	60
Gogledd Cymru	46	57
De Cymru	48	62
Gorllewin Cymru	44	57

6.3 Ar hyn o bryd mae'r Tribiwnlys yn cadw ei niferoedd tuag at isafswm yr amrediad, gan fod niferoedd yr achosion apêl yn dangos dirywiad bach oherwydd y cam presennol yn y cylch ailbrisiu ardrethi annomestig. Hefyd mae nifer yr apeliadau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn isel ar hyn o bryd (hon yw Blwyddyn 1). Er bod y rhain yn debygol o gynyddu yn y dyfodol bydd y niferoedd yn gymharol isel. Ceir y gyd-berthynas orau rhwng yr aelodaeth sy'n ofynnol a lefel y llwyth gwaith drwy edrych ar ffigurau ardrethu annomestig, gan fod yr ardrethu yn gweithredu ar gylch ailbrisiu bob pum mlynedd (yn arferol). Tuag at ddiwedd cyfnod pum mlynedd rhestr ardrethi byddem yn disgwyl i niferoedd yr apeliadau leihau ychydig, ac rydym ni ar y pwynt hwnnw yn awr gan fod y rhestr ardrethu presennol wedi ei llunio yn 2010. Yna, ym mlwyddyn olaf y rhestr, byddem yn disgwyl gweld cynnydd yn y llwyth gwaith (h.y. "apeliadau munud olaf"). Yn arferol byddem yn symud i'r cyfnod hwnnw yn ystod y flwyddyn i ddod, fodd bynnag, rydym ar dir dieithr i raddau, gan fod llunio'r rhestr nesaf wedi ei ohirio tan 2017. Felly rydym ni mewn cyfnod distaw am gyfnod hirach nag arfer cyn i'r cynnydd 'munud olaf' ymddangos. Felly gallem fod mewn sefyllfa bod y nifer aelodaeth isafswm presennol yn uwch na'n anghenion yn ystod llawer o'r ddwy flynedd nesaf.

Fodd bynnag, gan fod y niferoedd wedi eu pennu gan reoliad statudol nid oes mecanwaith cyflym ar gael i addasu hyn.

- 6.4 Gwelodd diwedd blwyddyn yr adroddiad hwn ddiwedd cyfnod penodiad nifer sylweddol o aelodau (h.y. cyfran dwy flynedd fel y crybwyllwyd ym mharagraff 6.1 uchod). Mae'r Clercod Rhanbarthol, a'u Cynrychiolwyr Rhanbarthol perthnasol, wedi gweithio'n galed i drefnu paneli penodi ar y cyd â'r awdurdodau lleol yn eu hardal i wneud y penodiadau a'r ailbenodiadau a oedd yn ofynnol cyn y dyddiadau diweddu, er mwyn sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl ar weithgareddau'r Tribiwnlys. Yn anffodus nid oedd yr holl baneli penodi ar y cyd wedi cyfarfod neu gwblhau eu gwaith erbyn diwedd y cyfnod. Nid oedd llawer o'r rhain, ond mae'r ffaith i hyn ddigwydd o gwbl oherwydd bod y broses yn gyfrifoldeb ar y cyd. Mae hefyd yn gyfrifoldeb nad oes gan yr awdurdodau lleol fawr o gymhelliant i'w flaenoriaethu, gan fod y penodiadau eu hunain yn benodiadau personol ac nid fel cynrychiolwyr yr awdurdodau dan sylw. Yn ymarferol mae'r Tribiwnlys yn tueddu canfod yr ymgeiswyr i'w penodi. Ni chanfyddir fawr ddim (os o gwbl) gan yr awdurdodau lleol eu hunain. Serch hynny, mae'n rhaid i'r Tribiwnlys gytuno ar yr holl benodiadau â'r awdurdodau lleol perthnasol; ni all wneud ei benodiadau ei hun ar ei ben ei hun. Gall hyn fod yn drafferthus i'w weinyddu ac yn faich ar amser weithiau. Mae cynnwys yr awdurdodau lleol yn y broses yn nodwedd hanesyddol sy'n dyddio'n ôl i ragflaenyddion gwreiddiol y Tribiwnlys yn 1948. Bellach mae'n ymddangos yn anacronistig yn yr unfed ganrif ar hugain; ond mae'n parhau wedi ei gynnwys yn y rheoliadau statudol sy'n llywodraethu'r Tribiwnlys. Am y tro cyntaf defnyddiodd y Tribiwnlys dudalennau penodiadau cyhoeddus gwefan Llywodraeth Cymru. Bu hyn yn llwyddiannus, gan ddenu nifer o ymgeiswyr o safon uchel iawn i'r Tribiwnlys.
- 6.5 Cyflwynodd y Tribiwnlys system arfarnu aelodau am y tro cyntaf eleni, wedi sawl blwyddyn o drafod mewnol. Gwnaed peth gwaith paratoi yn ystod blynyddoedd blaenorol drwy anfon aelodau, a benodwyd yn aseswyr wrth ragweld cyflwyno'r cynllun, am hyfforddiant perthnasol a ddarparwyd gan y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol (bryd hynny). Serch hynny, darparwyd rhagor o hyfforddiant eleni, yn dilyn mabwysiadu'r cynllun, a ddatblygwyd ac a argymhellwyd gan ein Pwyllgor Adnoddau Dynol, gan y Cyngor Llywodraethu yn ffurfiol. Cyflwynwyd yr hyfforddiant gan ymgynghorydd arbenigol Adnoddau Dynol y Tribiwnlys, i'r aseswyr dynodedig yn gyntaf ac wedi hynny i gadeiryddion y Tribiwnlys yn eu cynhadledd flynyddol ym mis Hydref, mewn ffurf wedi ei addasu ychydig. Y cadeiryddion fyddai'n mynd drwy'r set gyntaf o arfarniadau. Ar ôl rhai mân addasiadau i'r dogfennau cofnodi mae'r cynllun ar ei ffordd i ddod yn nodwedd arferol yn mywyd y Tribiwnlys. Mae rhanbarth y Gogledd wedi bod yn arbennig o lwyddiannus yn cynnwys a gwreiddio hyn yn ei diwylliant; lle mae'r holl gadeiryddion wedi eu hasesu a gwnaed cynnydd sylweddol o ran arfarnu'r aelodaeth gyffredin, ehangach.
- 6.6 Mae dwyieithrwydd Cymraeg-Saesneg ymhlith yr aelodau wedi lleihau fesul canran bychan yn dilyn y rownd penodiadau/ailbenodiadau diweddar. Fodd bynnag mae'n parhau ar oddeutu chwarter cyfanswm yr aelodaeth.

7. Hyfforddiant a Datblygiad

- 7.1 Mae gan y Tribiwnlys Prisio hanes cadarn o ddarparu hyfforddiant rheolaidd a phwrpasol i'w staff a'i aelodau fel ei gilydd, fel y cofnodwyd mewn adroddiadau blynyddol blaenorol. Nid oedd unrhyw beth yn wahanol eleni. Trefnodd y Pwyllgor Hyfforddiant Staff ac Aelodau raglen lawn ac amrywiol ar gyfer y flwyddyn. Roedd cynnydd sylweddol yn y gwariant ar hyfforddiant o gymharu â blynyddoedd blaenorol.
- 7.2 Yn benodol, trefnwyd hyfforddiant arbennig ynghylch diwygiadau lles Llywodraeth y Deyrnas Unedig ac awdurdodaeth newydd y Tribiwnlys mewn apelïadau'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Roedd hyn i'r aelodaeth gyfan a'r holl staff. Roedd aelod o Bwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd (cyn ei ddiddymu yn y Deyrnas Unedig ym mis Awst) yn bresennol yn un o'r diwrnodau hyfforddiant aelodau fel arsylllydd a chanmolodd y cynnwys.
- 7.3 Fel y cofnodwyd eisoes, cyflogodd y Tribiwnlys nifer o staff newydd eleni. Yn unol â hynny cynhaliwyd cwrs cynefino dwys dros ddeuddydd i'r Swyddogion Tribiwnlys Proffesiynol newydd, ac i un swyddog a oedd yn trosglwyddo o fod yn Swyddog Tribiwnlys Proffesiynol dan hyfforddiant i fod yn Swyddog Tribiwnlys Proffesiynol llawn.
- 7.4 Mae'r Tribiwnlys yn cydnabod y cymhwyster IRRV (Institute of Revenues Rating and Valuation) ac yn annog a rhoi cymorth ariannol i staff sy'n astudio'n ffurfiol. Gwnaeth nifer o'r staff newydd ymuno â staff presennol i ymgeisio am y cymhwyster hwn ac maent eisoes wedi llwyddo mewn rhai modiwlau (drwy arholiadau Rhagfyr).
- 7.5 Roedd yr hyfforddiant ychwanegol i aelodau eleni yn cynnwys hyfforddiant ar cynllun arfarnu aelodau a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn.

8. Llwyrth Gwaith

- 8.1 Mae awdurdoath y Tribiwnlys yn cwmpasu ystod o wahanol fathau o apeliadau. Yn bennaf y rhain yw apeliadau Rhestr Ardrethu Annomestig, apeliadau Rhestr Brisio'r Dreth Gyngor ac apeliadau atebolrwydd y Dreth Gyngor. Apeliadau a dderbynnir yn achlysurol yw apeliadau Hysbysiad Cosb, apeliadau Hysbysiad Cwblhau ac apeliadau Ardrethi Draenio. Yn ogystal â'r llwyrth gwaith apeliadau mae'r Tribiwnlys yn ymdrin â cheisiadau i adolygu penderfyniadau mewn amrediad o achosion lle bo un parti yn anfodlon â'r canlyniad.
- 8.2 O ran y niferoedd, mae mwyafrif yr apeliadau ym maes ardrethu annomestig gyda phrisio'r dreth gyngor yn ail. Yn ystod y flwyddyn hon deliodd y Tribiwnlys ag apeliadau ynghylch cofnodion yn rhestri ardrethu 2005 a 2010 a rhestr brisio 2010. Llunir a chynhelir y rhestri hyn gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Mae ymdrin â materion yn deillio o restr ardrethu 2005 yn cyrraedd diwedd ei gyfnod yn awr, a gostyngodd nifer yr achosion sy'n parhau o ychydig dros 400 ar ddechrau'r flwyddyn i ddim ond 200 ar ddiwedd y flwyddyn. O ran diwedd cyfnod gwaredu apeliadau ardrethu yn aml ceir rhai achosion anodd a chymhleth, sy'n galw am drafodaethau sylweddol rhwng y partion cyn y gellir rhestru'r materion i'w gwranddo gan dribiwnlys, ac maent yn parhau'n weddill. Felly gallai rhai o'r 200 achos olaf yn deillio o restr 2005 fod o gwmpas am gryn amser i ddod, ond nod y Tribiwnlys yw ymdrin â mwyafrif yr achosion yn y cyfnod 12 mis nesaf. Roedd y rhan fwyaf o'r gwaith apeliadau ardrethu yn y cyfnod yn ymwneud â rhestr 2010 – gyda bron i 7100 yn weddill ar ddechrau'r cyfnod a 4800 arall wedi eu hychwanegu at y nifer yma yn ystod y flwyddyn. Ymdriniwyd â bron i 7600 yn ystod y flwyddyn, gyda ychydig o dan 4400 yn weddill ar ddiwedd y cyfnod. O ran y cylch rhestr ardrethu pum mlynedd arferol dylai'r Tribiwnlys fod yn wynebu cyfnod cymharol ddistaw neu sefydlog cyn cynnydd terfynol mewn "apeliadau diwedd rhestr" yng nghyswllt apeliadau ardrethu sy'n deillio o restr 2010; a gellir gweld hyn o'r ffaith bod y Tribiwnlys wedi medru clirio mwy o apeliadau nag a dderbyniodd yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn debygol o barhau y flwyddyn nesaf, gan fod yr ailbrisio nesaf wedi ei ohirio a bydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2017 yn awr (dwy flynedd yn hwyrach na'r disgwyl). (Dangosir niferoedd manwl yr apeliadau ardrethu yn y tabl yn Atodiad A-1.)
- 8.3 Mae niferoedd yr apeliadau Prasio'r Dreth Gyngor yn llawer is na materion annomestig. Ar ddechrau'r cyfnod roedd 530 yn weddill; a derbyniwyd ychydig dros 1800 o apeliadau yn ystod y flwyddyn. Roedd y nifer a gliriwyd bron i 1700 ar ddiwedd y cyfnod – gan adael oddeutu 700 i'w cario trosodd. Fodd bynnag mae cyfraddau ymddangos yn y tribiwnlys yn uwch ar gyfer apeliadau Prasio'r Dreth Gyngor yn gyffredinol, fel cyfran o'r nifer a dderbynnir, o gymharu ag apeliadau Ardrethu Annomestig. Yn unol â hyn, er gwaethaf niferoedd is, maent yn cyfrif am gyfran arwyddocaol o lwyth gwaith gwrandawiaid a phenderfyniadau'r Tribiwnlys. Mae hyn oherwydd bod mwyafrif yr achosion treth gyngor yn cael eu cyflwyno gan drethdalwyr heb gynrychiolaeth, sy'n aml yn llai parod i drafod a datrys eu hachos â chynrychiolydd o Asiantaeth y Swyddfa Brisio na swyddog eiddo proffesiynol o ran materion ardrethu. Fel dangosydd cyffredinol, mae 24% o achosion

prasio'r dreth gyngor yn cael eu penderfynu, o gymharu â 15% o apeliadau ardrethu annomestig.

- 8.4 Mae nifer yr achosion Atebolrwydd y Dreth Gyngor (sy'n cynnwys apeliadau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor – awdurdodaeth newydd eleni) yn llawer is na'r ddau fath o achosion prasio y cyfeiriwyd atynt yn y paragraffau uchod. Serch hynny, mae'r rhain yn tueddu bod yn faterion llawer mwy dadleuol, yn aml wedi eu cofrestru gan apelydd heb gynrychiolaeth. Penderfynodd y Tribiwnlys ar 80% o'r achosion a gliriwyd yn ystod y flwyddyn. Roedd 27% o'r achosion a benderfynwyd yn hawliadau llwyddiannus. Ar ben yr achosion *bona fide* hyn a gofnodwyd, yn aml mae ceisiadau dilynol i adolygu penderfyniad gan yr apelydd a gollodd, gan nad ydynt am wynebu'r gost o fynd â'r materion hyn i'r lefel nesaf (sef yr Uchel Lys o ran cwestiynau am y gyfraith yn unig). Yn eithaf cyffredin gwneir y ceisiadau hyn heb sail gadarn (nodir y seiliau sy'n ofynnol yn y rheoliadau statudol). Serch hynny, mae'n rhaid i aelodau archwilio'r ceisiadau. Mae llawer yn cael eu gwrthod fel rhai di-sail. Nid yw'r ceisiadau di-sail hyn yn cael eu cofnodi ar hyn o bryd gan ein system Technoleg Gwybodaeth rheoli achosion. Yn fyr, er bod y nifer yn fach, gall materion Atebolrwydd y Dreth Gyngor hawlio swm sylweddol o amser tribiwnlys. (Dangosir niferoedd manwl apeliadau Atebolrwydd y Dreth Gyngor, ynghyd â'r mân apeliadau a grybwyllwyd ym maragraff 6.1, yn Atodiad A-2.)
- 8.5 Fel yn y blynyddoedd blaenorol, prin iawn oedd yr achosion aeth â'u hapêl i lefel uwch. Cyflwynwyd cyfanswm o bump achos ardrethu annomestig i'r Siambr Tiroedd ar apêl (2 o Ddwyrain Cymru ac un o bob un o'r rhanbarthau eraill). Nid oedd unrhyw atgyfeiriadau i'r Uchel Lys yn ystod y flwyddyn o ran apeliadau Atebolrwydd y Dreth Gyngor.

9. Cwynion

- 9.1 Mae gan Dribiwnlys Prasio Cymru drefn gwynion ffurfiol. Dan y drefn hon mae materion sy'n peri anfodlonrwydd nad ydynt yn cael eu datrys ar unwaith, neu'n fuan ar ôl tynnu sylw gweinyddiaeth y sefydliad atynt, yn cael eu cyfeirio at y Prif Weithredwr. Trosglwyddwyd tri chwyn i lefel y Prif Weithredwr eleni. Cyfnewidwyd gohebiaeth gwrteisi â'r rhai a oedd wedi cwyno, ac ymchwiliodd y Prif Weithredwr i'r materion yn drwyadl. Ni chanfu'r Prif Weithredwr unrhyw gamweinyddu, amhriodoldeb nac ymddygiad amhriodol o ran y Tribiwnlys a'i staff yn unrhyw un o'r achosion hyn. Ni wnaeth y cwynwyr herio canfyddiadau'r Prif Weithredwr.
- 9.2 Ni chyflwynwyd unrhyw gwynion am y Tribiwnlys i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystod y flwyddyn.

10. Ystad Tribiwnlys Prasio Cymru

- 10.1 Lleolir swyddfeydd gweinyddol pedair rhanbarth Tribiwnlys Prasio Cymru mewn tri lleoliad strategol yng Nghymru.

Lleolir **Swyddfeydd Gweinyddol Dwyrain a De Cymru** yn 22 Gold Tops, Casnewydd. Mae'r adeilad yn cael ei brydlesu gan landlord preifat tan Hydref 2014 ac fe'i ystyrir yn addas i'w bwrpas yn gyffredinol (Adolygiad Ystad Strategol Llywodraeth Cymru yn 2008). Buont yn defnyddio'r swyddfeydd hyn ers nifer o flynyddoedd (dros 16 blynedd). Mae ystafell gwrandawiadau a chyfleusterau ymgilio i'r aelodau yn rhan o'r adeilad ac fe'u defnyddir yn rheolaidd – a thrwy hynny arbed ar gostau teithio staff a ffioedd llogi ystafelloedd.

Lleolir **Swyddfa Weinyddol Gogledd Cymru** yn rhan o swyddfa cynllun agored yn Adeiladau Llywodraeth Cymru yng Nghyffordd Llandudno. Defnyddir y swyddfeydd dan gytundeb Memorandwm Telerau Meddiant. Fel adeilad cyhoeddus newydd mae'r eiddo yn cydymffurfio â'r holl safonau diogelwch a hygyrchedd diweddaraf. Nid yw'r Tribiwnlys yn cynnal gwrandawiadau tribiwnlys yn yr adeilad oherwydd cyfyngiadau gweithrediadol (h.y. ni ellir gwarantu llogi ystafell ddigon buan ymlaen llaw, a gallai'r ystafelloedd gael eu hadfeddiannau at ddefnydd Gweinidogion), ond cynhelir rhai cyfarfodydd eraill (staff, aelodau a hyfforddiant) yn achlysurol.

Lleolir **Swyddfa Weinyddol Gorllewin Cymru** mewn ardal hunangynhwysol, ar wahân, ar safle Adeiladau'r Llywodraeth ym Mhenllergaer, ar gyrion Abertawe. Mae'n cynnwys un ystafell cynllun agored. Defnyddir yr adeilad dan gytundeb Memorandwm Telerau Meddiant. Mae'r rhanbarth yn medru defnyddio ystafelloedd addas yn yr adeilad ar gyfer gwrandawiadau tribiwnlys, ac mae'n cynnal cyfarfodydd yno.

- 10.2 Darperir gwaith cynnal a chadw cynlluniedig ac ataliol yr adeiladau yng Nghyffordd Llandudno a Phenllergaer gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r cytundebau Memorandwm Telerau Meddiant. O ran swyddfeydd Casnewydd mae Tribiwnlys Prasio Cymru yn cyflogi cwmni cenedlaethol i gyflawni'r swyddogaeth hon.
- 10.3 Mae Tribiwnlys Prasio Cymru yn llogi ystafelloedd mewn lleoliadau niferus er mwyn cynnal ei swyddogaethau barnwrol. Mae'n rhaid cynnal gwrandawiadau mewn lleoliadau cyfleus ac mewn eiddo addas. Y prif elfennau a ystyrir wrth chwilio am adeiladau addas ar gyfer ystafelloedd gwrandawiadau tribiwnlys yw:

- Hygyrchedd rhwydd yn cynnwys cyfleusterau parcio ceir;
- Dangos annibyniaeth briodol oddi wrth y cyrff yr apelir yn erbyn eu penderfyniad;
- cydymffurfio â Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd a darpariaethau Iechyd a Diogelwch;

- bodloni disgwyliadau defnyddwyr; a
- darparu gwerth am arian.

10.4 Mae'r Tribiwnlys yn parhau i ddefnyddio peth eiddo modern awdurdodau lleol, o dro i dro, gan fod yr adeiladau hyn yn darparu lleoliadau o ansawdd da, diogel, hygyrch a gwerth am arian. Fodd bynnag, gan fod yr apeliadau sy'n cael eu hystyried yn deillio o faterion ardrethu lleol, nid yw defnyddio'r lleoliadau hyn yn 100% delfrydol – gellid ei ddirnad fel cyfaddawdu annibyniaeth y Tribiwnlys. Mae'r Tribiwnlys yn ymwybodol o hyn ac felly, pan ddefnyddir y lleoliadau hyn, eglurir y gwahaniaeth rhwng y Tribiwnlys a'r awdurdod lleol dan sylw yn fanwl i'r rhai sy'n bresennol yn y gwrandawriad. Mae'r Tribiwnlys wedi ymrwmo i symud oddi wrth ddefnyddio adeiladau awdurdod lleol cyn belled ag y bo'n bosibl, tra'n parhau i ddarparu lleoliadau ansawdd uchel, diogel a hygyrch.

11. Technoleg Gwybodaeth

- 11.1 Prynodd Tribiwnlys Prasio Cymru offer cyfrifiadurol pen desg newydd a meddalwedd Office yn ystod y flwyddyn yn lle offer yn dyddio o 2008. Yn sgîl trefniant partneriaeth â'r Gwasanaeth Tribiwnlys Prasio yn Lloegr – h.y. defnyddio'r un staff cymorth Technoleg Gwybodaeth – ni chafodd y gorsafoedd gwaith newydd eu gosod yn eu lle tan fis Mai 2014 (h.y. ychydig y tu allan i gyfnod yr adroddiad hwn). Felly, drwy gydol cyfnod yr adroddiad hwn parhaodd y Tribiwnlys i ddefnyddio cyfrifiaduron saith oed â meddalwedd Windows XP a rhaglenni Office 2007 arnynt, wedi eu cysylltu â chronfa ddata ganolog. Mae gan bob swyddfa nifer o argraffyddion lleol, gydag o leiaf un ohonynt yn ddyfais amlswyddogaeth, sy'n caniatáu sganio, e-bostio a chopio, yn ogystal ag argraffu uniongyrchol.
- 11.2 Mae Tribiwnlys Prasio Cymru (fel rhan o gytundeb mwy Gwasanaeth Tribiwnlys Prasio Lloegr) yn is-gontractio gwasanaethau cymorth a datblygiad o ran y gronfa ddata ganolog gan Capgemini drwy Asiantaeth y Swyddfa Brisio, sydd yn eu tro yn is-gontractio Capgemini fel rhan o gontract llawer mwy â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Mae hwn yn drefniant hanesyddol cymhleth sy'n cyrraedd blynyddoedd olaf ei oes naturiol, gan fod y ganolfan ddata a'r isadeiledd i gael eu rhoi o'r neilltu ar ddiwedd y rhestr ardrethu gyfredol (sef 31 Mawrth 2017). O ganlyniad mae Tribiwnlys Prasio Cymru yn dechrau edrych ar drefniadau amgen i'r dyfodol. Bydd tîm staff Technoleg Gwybodaeth yn ystyried y dewisiadau, ac yna ymgynghorir â'r Cyngor Llywodraethu a Llywodraeth Cymru.
- 11.3 Mae'r gronfa ddata ganolog wedi ei chysylltu â holl swyddfeydd Cymru gan ddefnyddio Rhwydwaith Ardal Eang a ddarperir gan VirginMedia. Adleolwyd y ganolfan ddata ganolog yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i ailstrwythuro ei ystad Technoleg Gwybodaeth gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Nid oedd y digwyddiad hwn wedi ei ragweld, a hysbyswyd Tribiwnlys Prasio Cymru, drwy Wasanaeth Tribiwnlys Prasio Lloegr, ychydig wythnosau cyn yr oedd i ddigwydd. Mae hyn yn enghraifft o effaith penderfyniadau sefydliadau eraill ar Dribiwnlys Prasio Cymru, fel rhan o'r trefniadau isadeiledd Technoleg Gwybodaeth cymhleth cyfredol. Targed y Tribiwnlys i'r dyfodol yw cael trefniadau cytundebol uniongyrchol â chyflenwyr, yn hytrach na bod yn rhan o gontractau sefydliadau partner.
- 11.4 Yn ystod y flwyddyn gwirfoddolodd y Prif Weithredwr a dau Glerc Rhanbarthol i dreialu gliniaduron a oedd yn galluogi cysylltu o bell â'r gronfa ddata ganolog, a gweinyddydd ffeiliau ac e-bost drwy'r rhyngwyd, gan ddefnyddio amgryptio data diogel. Gobeithid y byddai'n ddefnyddiol i'r Prif Weithredwr wrth deithio rhwng swyddfeydd ac aros ymaith dros nos. Mae'r dechnoleg yn gweithio'n dda gyda chyswllt ffisegol i'r rhyngwyd (drwy gebl), ond nid yw'n gweithio'n dda â chysylltiadau di-wifr, gan fod colli signal neu signal yn gwanhau yn medru achosi allgau o'r system. Ni ellir datrys y digwyddiadau cloi hyn y tu hwnt i oriau gwaith arferol staff cymorth ac felly ni chynghorir gweithio'n ddi-wifr. Canlyniadau ymarferol hyn yw bod y dechnoleg yn ddefnyddiol ar gyfer gweithio o gartref yn achlysurol, lle mae pwynt cebl ar gael yn arferol; ond nid yw'n gweithio'n dda wrth deithio lle mae'r cysylltiad

rhyngrwyd yn ddi-wifr bron yn ddieithriad erbyn heddiw. Nid oes gan y Tribiwnlys unrhyw angen na chynlluniau ar gyfer gweithio o gartref amser llawn yn y dyfodol. Felly mae'r dechnoleg yn parhau'n ddefnyddiol mewn rhai amgylchiadau – o ran ceisiadau am weithio'n hyblyg o bosibl, ond nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ledaenu hyn ymhellach i'r staff.


- 11.5 Yn hollol ar wahân i'r trefniadau Technoleg Gwybodaeth mewn partneriaeth â Gwasanaeth Tribiwnlys Prisio Lloegr ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio, mae Tribiwnlys Prisio Cymru yn gweithredu ei wefan ei hun - www.valuation-tribunals-wales.org.uk. Cynhelir y wefan gan gontractwr a gyflogir gan Dribiwnlys Prisio Cymru ac mae'n wefan gwbl ddwyieithog. Mae holl daflenni Tribiwnlys Prisio Cymru ar gael yno mewn ffurf PDF, ynghyd â manylion cyswllt holl swyddfeydd rhanbarthol Tribiwnlys Prisio Cymru a'r Prif Weithredwr. Defnyddir y wefan i hyrwyddo Tribiwnlys Prisio Cymru, yn cynnwys recriwtio aelodau newydd arfaethedig, ac i hysbysu am a rhoi cyhoeddusrwydd i fentrau newydd fel a phan fo'n briodol. Cafodd ei gweddnewid yn gyfangwbl o ran ei golwg. Lanswyd y wefan ar ei newydd wedd yn fuan ar ôl diwedd y flwyddyn dan sylw yn yr adroddiad hwn.
- 11.6 Fel rhan o ymdrechion y Tribiwnlys i fod yn sefydliad sy'n *ymwybodol o ac yn hyrwyddo'r Gymraeg* bydd y meddalwedd geiriaduron a gwirio sillafu a gramadeg a gynhyrchwyd gan Brifysgol Bangor ac a elwir yn Cysgliad yn cael ei osod ar holl gyfrifiaduron Tribiwnlys Prisio Cymru yn y dyfodol, ac nid cyfrifiaduron y siaradwyr Cymraeg yn unig. Mae hyn yn caniatáu i'r defnyddwyr hyn symud o un peiriant i un arall heb gyfaddawdu'r meddalwedd sydd ar gael iddynt. Mae ei bresenoldeb hefyd yn hybu chwilfrydedd a defnydd ar raddfa fechan ymhlith defnyddwyr eraill sy'n meddu ar beth sgiliau Cymraeg; ac yn dangos i'r holl staff ymrwymiad y sefydliad i fod yn sefydliad rhagweithiol sy'n gwella o ran defnyddio a hybu'r Gymraeg.

12. Adnoddau Ariannol Tribiwnlys Prasio Cymru

12.1 Cyllideb y Tribiwnlys am y flwyddyn oedd £1.43M. Roedd hyn yn cynrychioli cynnydd arwyddocaol ar y flwyddyn flaenorol, o £1.2M. Roedd y rhesymau am y cynnydd yn cynnwys:

- penodi unigolyn i rôl y Prif Weithredwr fel swydd benodol (yn y blynyddoedd cynharach cyfunwyd y swyddogaeth â rôl Clerc Rhanbarthol),
- penodi unigolion i'r bylchau a oedd wedi datblygu yn strwythur y timau rhanbarthol a ddatblygodd yn araf dros amser, i baratoi ar gyfer ffrwd apelïadau newydd Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a rhestr ardrethu newydd 2015 (wedi ei ohirio tan 2017 erbyn hyn), a
- hyfforddi'r holl staff ac aelodau yn barod ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

12.2 Yr alldro gwariant am y flwyddyn oedd £1.41M (yn cynrychioli gwario 99% o'r gyllideb). Dangosir ffigurau manwl yn ôl penawdau cyllideb y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru yn Atodiad B. Dangosir dosbarthiad y gwir wariant yn ôl canran yn y siart isod.



12.3 Yn sgîl pwysau gwaith ar ddechrau'r flwyddyn ar dîm nawdd Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â materion Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac awdurdodau bilio, cytunwyd ar gyllideb Tribiwnlys Prasio Cymru yn ddiweddarach nag sy'n ofynnol yn arferol dan gytundeb rheoli Tribiwnlys Prasio Cymru a Llywodraeth Cymru; ac roedd llythyr Llywodraeth Cymru yn cadarnhau'r gyllideb ychydig yn hwyr ac nid oedd y ffigurau ynddo yn adlewyrchu lledaeniad y cynnydd cytunedig ar draws penawdau cyllideb yn unol â chyngor y Prif Weithredwr blaenorol. Yn hytrach gwelwyd cynnydd dan y penawdau Cyflogau a Chostau Teithio a Chynhaliaeth yn unig. Hefyd ni ystyriwyd y patrwm gwario blaenorol, ac felly ni wnaed unrhyw addasiadau ar draws penawdau cyllideb eraill. Felly nid oedd y gyllideb a ddyrannwyd i bob pennawd yn gwir gynrychioli patrwm gwariant disgwylïedig y Tribiwnlys. Dangosir hyn yn glir gan yr alldro, a oedd yn cyrraedd y targed yn gyffredinol, ond roedd amrywiaethau dan y penawdau yn bron bob achos. Mae'r

Tribiwnlys a'r tîm nawdd wedi byw gyda'r nodwedd annymunol hwn drwy gydol eleni; ond cyflwynwyd camau, o ganlyniad i'r cydgysylltu agos a ddatblygwyd drwy ymweliadau rheolaidd y Prif Weithredwr â thîm Llywodraeth Cymru yng Nghaerdydd, i gael gwared ar yr anomaleddau hyn yn y dyfodol.

- 12.4 Y Prif Weithredwr ar ran y Cyngor Llywodraethu yw'r swyddog dynodedig diogelu arian cyhoeddus Tribiwnlys Prisio Cymru ac mae ganddo gyfrifoldeb am sicrhau priodoldeb defnyddio'r holl gronfeydd ariannol a ddyrannwyd.

Data Clirio Apeliadau 1 Ebrill 2013 - 31 Mawrth 2014

Math o Apêl		Apeliadau Priso'r Dreth Gyngor		Rhestr Ardrethu Annomestig 2005		Rhestr Ardrethu Annomestig 2010		Amrywiol (e.e. Atebolrwydd / Cosbau)*		Pob Apêl	
	Rhanbarth		Cyfanswm		Cyfanswm		Cyfanswm		Cyfanswm		Cyfanswm
Dygydd ymlaen	Dwyrain	101	534	109	408	1573	7132	2	26	1785	8100
	Gogledd	107		47		1789		3		1946	
	De	150		68		2067		11		2296	
	Gorllewin	176		184		1703		10		2073	
Derbyniwyd	Dwyrain	342	1835	1	3	1279	4819	9	100	1631	6757
	Gogledd	540		0		1043		11		1594	
	De	384		1		1337		56		1778	
	Gorllewin	569		1		1160		24		1754	
Datryswyd	Dwyrain	289	1284	29	193	1531	6406	1	15	1850	7898
	Gogledd	386		28		1422		3		1839	
	De	223		30		1763		5		2021	
	Gorllewin	386		106		1690		6		2188	
Penderfynwyd	Dwyrain	73	403	1	18	227	1173	7	62	308	1656
	Gogledd	89		0		311		10		410	
	De	158		4		387		25		574	
	Gorllewin	83		13		248		20		364	
Caniatawyd	Dwyrain	11	22	0	1	18	93	2	17	31	133
	Gogledd	7		0		14		4		25	
	De	1		0		24		6		31	
	Gorllewin	3		1		37		5		46	
Cariwyd ymlaen	Dwyrain	81	682	80	200	1094	4372	3	49	1258	5303
	Gogledd	172		19		1099		1		1291	
	De	153		35		1254		37		1479	
	Gorllewin	276		66		925		8		1275	

Data Clirio Apeliadau 1 Ebrill 2013 - 31 Mawrth 2014 – Dadansoddi'r Mathau Amrywiol

Math o Apêl		Atebolrwydd y Dreth Gyngor		Hysbysiad Cwblhau		Hysbysiad Cosb		Cais i Adolygu Penderfyniad		Cynllun Gostyniadau'r Dreth Gyngor		Pob Apêl Amrywiol	
	Tribiwnlys		Cyfanswm		Cyfanswm		Cyfanswm		Cyfanswm		Cyfanswm		Cyfanswm
Dygwyd ymlaen	Dwyrain	2	22	0	4	0	0	0	0	0	0	2	26
	Gogledd	2		1		0		0		0		3	
	De	10		1		0		0		0		11	
	Gorllewin	8		2		0		0		0		10	
Derbyniwyd	Dwyrain	3	62	0	3	0	0	3	23	3	12	9	100
	Gogledd	7		1		0		3		0		11	
	De	44		2		0		9		1		56	
	Gorllewin	8		0		0		8		8		24	
Datryswyd	Dwyrain	1	9	0	4	0	0	0	0	0	2	1	15
	Gogledd	2		1		0		0		0		3	
	De	3		2		0		0		0		5	
	Gorllewin	3		1		0		0		2		6	
Penderfynwyd*	Dwyrain	3	35	0	1	0	0	3	23	1	3	7	62
	Gogledd	7		0		0		3		0		10	
	De	15		0		0		9		1		25	
	Gorllewin	10		1		0		8		1		20	
*Caniatawyd	Dwyrain	0	1	0	0	0	0	2	16	0	0	2	17
	Gogledd	1		0		0		3		0		4	
	De	0		0		0		6		0		6	
	Gorllewin	0		0		0		5		0		5	
Cariwyd ymlaen	Dwyrain	1	40	0	2	0	0	0	0	2	7	3	49
	Gogledd	0		1		0		0		0		1	
	De	36		1		0		0		0		37	
	Gorllewin	3		0		0		0		5		8	

Gwariant Tribiwnlys Prasio Cymru 2013-2014 (£)

Maes gwariant	Cyllid a ddyrannwyd	Gwariant	Cyllid sy'n weddill / gorwariant	Canran y gwariant blynyddol
Cyflogau	767000	670661	96339	87%
Pensiynau	116000	141050	-25050	126%
Is-gyfanswm	883000	811711	71289	92%
Costau swyddfeydd	90000	92291	-2291	103%
Gwariant cyfrifiaduron	180000	272674	-92674	151%
Teithio a chynhaliaeth	117000	97337	19663	83%
Offer a chyflenwadau	35000	27658	7342	79%
Cyfleustodau	20000	8966	11034	45%
Costau cynnal eraill	50000	35824	14176	72%
Hyfforddiant	35000	45909	-10909	131%
Cyngor Llywodraethu	20000	21960	-1960	110%
Is-gyfanswm	547000	602619	-55619	117%
Derbyniadau		-184	184	
Cyfanswm gwariant	1430000	1414146	15854	99%

Nodyn

Fel y nodwyd ym mharagraff 12.3 yn yr adroddiad uchod, cafodd dyraniad cronfeydd dan benawdau cyllideb eu camgymhwyso yn llythyr cadarnhau'r gyllideb gan Lywodraeth Cymru a'r gweithdrefnau cyfrifyddu dilynol. Nid oeddynt yn cyd-fynd â'r lefelau gwariant unigol a ragfynegwyd gan y Prif Weithredwr ar y pryd – er bod cyfanswm y gyllideb yn ei chyfanrwydd yn gywir. Mae hyn yn esbonio'r ystod eang o orwariant a thanwariant yn ôl penawdau cyllideb unigol. Mae trafodaethau rhwng y tîm nawdd cyfredol a'r Prif Weithredwr presennol wedi cywiro'r sefyllfa ar gyfer blynyddoedd y dyfodol.